Ffotograffiaeth Anthoteip

Llun yw Anthoteip, a gafodd ei ddyfeisio gan Syr John Herschel yn 1842. Caiff ei greu gan ddefnyddio deunydd ffotosensitif neu sy'n sensitif i olau, sydd i'w gael mewn planhigion.

Bydd y paent sych sy'n gorchuddio'r papur yn cael ei ddiliwio'n araf gan belydrau'r haul os na chaiff ei orchuddio gan wrthrych sy'n ei ddiogelu rhag y golau

deunyddiau:

petalau, dail, ffrwythau neu lysiau sydd â lliw cryf

pestl a morter/blendiwr/stwnshwr

gogr mân

sbwng neu frwsh

papur dyfrlliw

haen o wydr/plastig tryloyw

pwysau fel 2 garreg i'w ddal i lawr

eitemau gyda silwét cryf i'w gosod ar bapur sy'n sensitif i olau

Cyfarwyddiadau i greu Anthoteip:

1. Gwasgwch y sudd o ddeunyddiau planhigion fel aeron, dail, ffrwythau.

2. Defnyddiwch liain neu ogr i gael gwared ar unrhyw fwydion.

3. Defnyddiwch frwsh neu sbwng i orchuddio'r papur - papur dyfrlliw fyddai orau ond mae papur cetris yn addas hefyd. Gadewch iddo sychu mewn lle tywyll.

4. Pan fydd yn sych, trefnwch y gwrthrychau sydd ag amlinelliad cryf e.e. dail, blodau, gwrthrychau a wnaed gan bobl sydd â siapiau diddorol os yw'n bosib

5. Gorchuddiwch nhw â gwydr neu bersbecs, a rhowch bwysau arno i sicrhau na fydd yr eitemau sydd ar ben y papur anthoteip yn symud am rai dyddiau.

Gallwch ei roi mewn tŷ gwydr os nad yw'r tywydd yn ffafriol. Gadewch iddo weld golau'r haul am ychydig ddyddiau, neu tan i chi weld effaith yr haul yn diliwio'r papur sydd yn y golwg.